



RhannuCeirCaerdydd.com

# Cylchlythyr

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 3722

Gaeaf 2010

Rhifyn 13



## Nodwedd Newydd!

Mae nodwedd newydd gan RhannuCeirCaerdydd! Mae gan y system bellach gyfleuster 'Digwyddiadau' sy'n cefnogi'r defnydd o'r safle ar gyfer teithiau achlysurol fel cyfarfodydd. Gellir ychwanegu digwyddiadau (e.e. cyfarfodydd) at y system. Gall aelodau unigol gofrestru taith at unrhyw un o'r digwyddiadau hyn gan ddefnyddio'r tab 'Teithiau' ar y dudalen hafan ac yna dilyn y tab 'Digwyddiadau'. Os oeddech yn awyddus i wneud defnydd o'r cyfleuster hwn ac os hoffech gofrestru digwyddiad penodol, cysylltwch â'r Gweinyddwr Rhannu Ceir ar [carshare@caerdydd.gov.uk](mailto:carshare@caerdydd.gov.uk).


## Croeso i gylchlythyr Gaeaf RhannuCeirCaerdydd.com

Aelod newydd i  
RhannuCeirCaerdydd!



voluntary action cardiff  
gweithredu gwirfoddol caerdydd

Mae RhannuCeirCaerdydd yn falch iawn o gyflwyno ei aelod sefydliadol diweddaraf sef Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd. Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd (VAC), sef yr unfed sefydliad ar ddeg i ymuno â RhannuCeirCaerdydd, yw'r Cyngor Gwirfoddol Caerdydd (CVC) ar gyfer Caerdydd. Sefydliad aelodaeth ydyw, sydd ar agor i bob sefydliad gwirfoddol a chymunedol (sef y trydydd sector) yng Nghaerdydd. Cenhadaeth Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd yw hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol drwy gefnogi datblygiad Trydydd Sector bywiog a ffyniannus yng Nghaerdydd. Mae pob sefydliad sy'n aelod o VAC yn gallu ymuno â grŵp RhannuCeirCaerdydd VAC.



Grantiau Cynllun Teithio  
Dinas Deithio Gynaliadwy

Derbyniodd trydedd rownd Grantiau Cadw Caerdydd i Symud nifer fawr o geisiadau gan ystod eang o sefydliadau. Mae UWIC, Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd, Ysgol Iau Cwrt yr Ala, Atkins, Ysgol Gynradd St Patrick, Ysgol Gynradd Bryn Deri, Ysgol Gynradd Gabalfa, Ysgol Gynradd Trelái, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ysgol Gynradd St Francis, Ysgol Gynradd Parc Ninian, Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Gynradd Baden

Powell, Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Choleg Glan Hafren oll wedi derbyn cyllid ar gyfer mesurau sy'n cynnwys storio beiciau, ymgyrchoedd marchnata sy'n hyrwyddo teithio cynaliadwy, 'Bws Siopa' wythnosol i fyfyrwyr a beiciau cronfa. Llongyfarchiadau

## Cyngor Caerdydd

Roedd yr ail ffenestr brynu ar gyfer y cynllun seiclo i'r gwaith yn llwyddiannus, gyda nifer o staff ar draws y Cyngor yn prynu beiciau newydd. Cynllunnir trydedd ffenestr ar gyfer yr haf.

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i weithio ar ei Wobr Ddraig Werdd. Mae Rhaglen Gweithredu Rheoli Amgylcheddol yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys nifer o gamau sy'n gysylltiedig â theithio a thrafnidiaeth,

fel mesur ôl troed carbon fflyd cerbydau'r Cyngor. Rydym hefyd yn aros am y canlyniadau o'r Adolygiad Fflyd Werdd Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a gafodd ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf.

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Arolwg Teithio

Roedd yr arolwg yn fyw dros gyfnod o 3 wythnos ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2009, drwy fformat ar-lein. Roedd y gyfradd ymateb yn wych gyda 51% o'r holl staff yn cwblhau'r arolwg. Mae'r canlyniadau wedi eu dadansoddi ac wedi arwain at adroddiad ac mae'r canfyddiadau bellach yn cael eu defnyddio i greu mentrau perthnasol a hyrwyddo'r ffurfiau hynny o deithio cynaliadwy a nodwyd gan

y staff fel y dewis mwyaf poblogaidd yn hytrach na defnyddio car.

### Car Cronfa

Mae gan y Cynulliad gar cronfa newydd sbon erbyn hyn at ddefnydd staff. Mae'r Fiesta EOnetic yn allyrru ond 98g/km CO2 ac mae ganddo well effeithlonrwydd tanwydd na hybrid!

Mae mor ystyriol o'r amgylchedd fel nad oes dim treth arno o gwbl. Bydd y car cronfa ar gael i staff o 15 Chwefror a bydd yn cael ei hyrwyddo fel dewis yn lle defnyddio car wedi ei logi, ond bob amser ar ôl ystyried yr hierarchaeth o deithio busnes sy'n hyrwyddo peidio â theithio o gwbl i ddechrau, defnyddio cynadleda fideo/ffôn ar gyfer y cyfarfod, cerdded neu seiclo i gyfarfod neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

### Contract Llogi Ceir

Yn ddiweddar dyfarnodd y Cynulliad contract llogi ceir newydd gan ymdrechu i leihau eu hôl troed carbon, nid oes gan y cyflenwr llwyddiannus gar yn ei fflyd sydd dros 160g/km CO2. Rydym hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o geir bach lle bo'n bosibl. Unwaith eto, dylid defnyddio'r hierarchaeth teithio fel yr amlinellir uchod.



Cynllun seiclo i'r gwaith  
Mae'r cynllun seiclo i'r gwaith yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd gyda rhagor o staff ac Aelodau Cynulliad yn gwneud cais am feiciau drwy'r cynllun.

## Newyddion CBAC

Mae CBAC yn y camau olaf o ailgartrefu i Gam 2 o'i adeilad newydd. Golyga hyn bod 35 o staff ychwanegol yn gweithio yn Western Avenue. Mae'r rhan fwyaf o staff CBAC wedi cwblhau holiadur teithio nawr a dylai hynny alluogi'r rheolwyr i gael golwg gliriach ar faterion teithio y daw y staff ar eu traws wrth fynd i'r gwaith, a bydd hynny, yn ei dro yn golygu y gellir cael golwg gliriach ar ba drafndiaeth amgen sydd ar gael i'w defnyddio.

Ar ôl yr ail ffenestr brynu cynllun seiclo a redir gan Wheelies Direct mae ychydig rhagor o staff ychwanegol wedi bod yn fentrus. Bydd cyfle pellach i brynu ym mis Mai/Mehefin 2010. Mae'r lloches newydd ddiogel ar gyfer beiciau wedi ei gosod bellach ac mae'r defnyddwyr i gyd yn falch iawn ohoni; dylai hyn hefyd annog staff i fynd ar eu beic yn amlach.

## Newyddion UWIC

Mae'r Siopwr UWIC a lansiwyd yn ddiweddar yn llwyddiant ysgubol. Mae'r bws am ddim yn cymryd



myfyrwyr o'u neuaddau preswyl neu dai myfyrwyr i archfarchnad ar Western Avenue. Wedi ei ariannu gan Grant Cadw Caerdydd i Symud, mae'r gwasanaeth yn rhedeg rhwng 6pm a 10pm bob nos Fawrth. Mae'r daith yn amgylchynu holl neuaddau myfyrwyr UWIC, gan hefyd deithio drwy'r prif ardaloedd myfyrwyr yn y Rhath a Cathays. Mae'r gwasanaeth hwn am ddim i'r holl fyfyrwyr, p'un a ydynt yn astudio yn UWIC, Prifysgol Caerdydd neu Brifysgol Morgannwg. Y cyfan sydd ei angen i'w ddefnyddio yw cerdyn adnabod myfyriwr. Dengys ymchwil bod 1 o bob 4 myfyriwr yn berchen ar gar ac mai un o'r prif resymau y maent yn dod â'u ceir i'r Brifysgol yw i helpu gyda siopa wythnosol. Mae'r gwasanaeth Siopa UWIC yn ceisio annog rhagor o fyfyrwyr i adael eu ceir gartref gan gynnig dewis arall iddynt. Ceir rhagor o wybodaeth am y Siopwr

UWIC o [www.uwic.ac.uk/uwicrider](http://www.uwic.ac.uk/uwicrider).

## Coleg Glan Hafren

Dyfarwyd arian i Goleg Glan Hafren drwy grantiau Cadw Caerdydd i Symud er mwyn darparu parcio ar gyfer beiciau yn eu safle yn Trowbridge a hefyd hyfforddiant seiclo i staff. Mae hyn yn cefnogi mentrau sy'n bodoli'n barod fel y cynllun seiclo i'r gwaith.

## Wythnos Cerdded i'r Gwaith

Mae Wythnos Cerdded i'r Gwaith (26-30 Ebrill) yn gyfle gwych i hyrwyddo teithio actif. Y thema ar gyfer cynhadledd eleni yw 'cadw'n heini heb drafferth'. Mae'r sefydliad Walking Works yn cynnig teclyn ar-lein (ar gael ar

[www.walkingworks.org.uk](http://www.walkingworks.org.uk) o ddechrau Ebrill) i ddilyn effaith yr Wythnos a galluogi gweithwyr unigol i ddilyn eu cynnydd eu hunain. Mae Walking Works hefyd yn cynnig adnoddau ar-lein am ddim (e.e. posteri). Maent wedi gosod pum her ar gyfer Wythnos Cerdded i'r Gwaith eleni:

1. Ceisiwch gerdded yr holl ffordd neu ran o'r ffordd i'r gwaith
2. Ceisiwch gerdded yr holl ffordd neu ran o'r ffordd adref o'r gwaith
3. Cynhaliwch gyfarfod cerdded
4. Cerddwch ran o'r ffordd neu'r holl ffordd i gyfarfod
5. Ewch am dro yn ystod eich amser cinio

Digwyddiadau Teithio Cynaliadwy  
Mae cymryd rhan mewn digwyddiadau teithio cynaliadwy yn ffordd wych o godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo eich cynllun teithio. Ymhlith digwyddiadau eraill ar y gweill sy'n hyrwyddo teithio actif a chynaliadwy mae:

Wythnos Seiclo i'r Ysgol  
26 - 30 Ebrill  
Wythnos Cerdded i'r Ysgol  
17 - 21 Mai  
Diwrnod Cenedlaethol Gweithio o Gartref  
15 Mai  
Wythnos Seiclo  
13 - 21 Mehefin

Mae calendr o ddyddiadau digwyddiadau teithio actif a chynaliadwy ar gael yn [www.keepingcardiffmoving.co.uk/travelplans](http://www.keepingcardiffmoving.co.uk/travelplans).

Poster Newydd  
Mewngofnodiwch i RhannuCeirCaerdydd i ddod o hyd i rywun i rannu eich taith a lleihau eich costau teithio!



## Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Cynllunio ar gyfer Teithio:  
Traveline Cymru: [www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info) (ffôn 0871 200 22 33)

Cerdded a seiclo:  
Sustrans: [www.sustrans.org.uk](http://www.sustrans.org.uk) Ramblers: [www.ramblers.org.uk/wales/](http://www.ramblers.org.uk/wales/)

Cynlluniau Teithio:  
[www.keepingcardiffmoving.co.uk/travelplans](http://www.keepingcardiffmoving.co.uk/travelplans) e-bost: [travelplans@cardiff.gov.uk](mailto:travelplans@cardiff.gov.uk)

Beic Caerdydd:  
[www.OYBike.com](http://www.OYBike.com)

Cynlluniau seiclo i'r gwaith:  
[www.dft.gov.uk/sustainable/cycle/cycletoworkguide](http://www.dft.gov.uk/sustainable/cycle/cycletoworkguide)

Cycle Solutions:  
[www.cyclesolutions.co.uk/cc](http://www.cyclesolutions.co.uk/cc)

Wythnos Cerdded i'r Gwaith:  
[www.walkingworks.org.uk](http://www.walkingworks.org.uk)